**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **25 Mawrth 2014**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: Y Cynghorydd Hugh Evans a'r Cynghorydd Huw L Jones**

**Awdur yr Adroddiad:** **Tom Booty, Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes**

**Teitl: Cynlluniau Tref ac Ardal**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y Cynlluniau Tref ac Ardal.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunodd y Cabinet yn flaenorol y dylid ehangu Cynlluniau Tref i fod yn Gynlluniau Ardal yn ymgorffori cymunedau gwledig. Mae'r adroddiad hwn yn galluogi'r Cabinet i gymeradwyo trydydd cam y Cynlluniau Ardal newydd a chytuno ar y blaenoriaethau gwariant o bot/pŵl Arian Blaenoriaeth y Cynlluniau Tref ac Ardal.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhellion yw bod y Cabinet yn:

1. Cymeradwyo mabwysiadu'r Cynlluniau Ardal (sy'n cynnwys y Cynlluniau Tref presennol) ar gyfer y Rhyl, Dinbych a Rhuddlan;
2. Cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y blaenoriaethau a nodir yn y Cynlluniau Ardal y cyfeirir atynt uchod;
3. Nodi'r wybodaeth o safbwynt gwariant hyd yn hyn ar y Cynlluniau Tref ac Ardal.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

### 4.1 Cynllun Tref ac Ardal y Rhyl

Mae Cynllun Tref ac Ardal y Rhyl wedi'i atodi yn Atodiad 1. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl ar 12 Mawrth 2014, ac rydym rŵan yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Cynllun a'r blaenoriaethau a'r ymrwymiadau ariannu cysylltiedig canlynol:

| **Blaenoriaeth:** | **Gofyniad Ariannu:** |
|---|---|
| Gwelliannau i strydlun | £200,000 |
| Gwella pyrth allweddol | £50,000 |
| Dechrau gweithredu arwyddion cyfeirio newydd | £50,000 |
| **CYFANSWM A OFYNNWYD AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUN TREF** | **£300,000** |

Mae pob un o'r blaenoriaethau arfaethedig yn cyd-fynd â Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen. Bydd y gwelliannau a gynigir ar gyfer y strydlun yng nghanol y dref, gan gynnwys

y rhai i ymddangosiad y palmentydd lletach a fydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r gwaith atgyweirio i'r briffordd yn ne y Stryd Fawr, a goleuadau newydd, plannu, a dodrefn stryd i gyd yn gwella profiad ymwelwyr i ganol y dref a'i wneud yn amgylchedd mwy deniadol i adwerthwyr ystyried buddsoddi ynddo. Mae hwn yn gam gweithredu allweddol yn y Cynllun a fydd yn sail i'r agwedd o geisio adnewyddu cynnig adwerthu'r dref mewn partneriaeth â'r sector busnes a'r trydydd sector. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â'r gwaith atgyweirio priffyrdd a drefnwyd ar gyfer eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15.

Bydd gwella ymddangosiad y prif fynedfeydd i'r dref a dechrau cyflwyno'r strategaeth gyfeirio newydd ar gyfer y dref yn ategu'r gwaith arfaethedig ar gyfer canol y dref gan wella profiad yr ymwelwyr. Bydd y gwaith arfaethedig o amgylch y bont las yn cael ei wneud ar y cyd â'r gwaith atgyweirio i'r dec sydd wedi'i drefnu ar gyfer hydref 2014.

Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r dyraniad a geisiwyd o'r gyllideb Cynllun Tref i ddenu arian cyfatebol gan gyrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y Gronfa Cymunedau Arfordirol a Croeso Cymru ar gyfer buddsoddiadau cymwys ynghyd â chymorth gan Gyngor Tref y Rhyl ar gyfer gweithgareddau cyflenwol, a bydd y rhain yn cael eu datblygu.

### 4.2 Cynlluniau Tref ac Ardal Dinbych

Mae Cynllun Tref ac Ardal Dinbych wedi'i atodi yn Atodiad 2. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Grŵp Aelodau Ardal Dinbych ar 10 Chwefror 2014, ac rydym rŵan yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Cynllun a'r blaenoriaethau a'r ymrwymiadau ariannu cysylltiedig canlynol:

| **Blaenoriaeth:** | **Gofyniad Ariannu:** |
|---|---:|
| Diweddaru ceginau ym Mhafiliwn Chwaraeon Llandyrnog | £2,000 |
| Gosod llwybr troed yn Aberchwiler | £20,000 |
| Gosod llwybr troed ar Ffordd Garn, Henllan | £85,000 |
| **CYFANSWM A OFYNNWYD AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUN TREF** | **£107,000** |

Mae angen diweddaru'r gegin ym Mhafiliwn Chwaraeon Llandyrnog i wella'r cyfleuster i safon reoleiddio a fydd yn caniatáu ei ddefnydd parhaus gan glybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol. Heb ei ddiweddaru ni fydd yn bosibl parhau i'w ddefnyddio.

Mae angen gosod llwybrau troed yn Aberchwiler a Henllan i wella diogelwch cerddwyr. Nid yw'r gwaith hyn ar y rhaglen waith Priffyrdd ond maent yn flaenoriaeth ar gyfer y gymuned.

### 4.3 Cynllun Tref ac Ardal Rhuddlan

Mae Cynllun Tref ac Ardal Rhuddlan wedi'i atodi yn Atodiad 3. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Grŵp Aelodau Ardal Elwy ar 7 Mawrth 2014, ac rydym rŵan yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Cynllun a'r blaenoriaethau a'r ymrwymiadau ariannu cysylltiedig canlynol:

| Blaenoriaeth: | Gofyniad Ariannu: |
|---|---|
| Mynd i'r afael ag eiddo hyll yn Nyserth | £38,000 |
| Amnewid offer chwarae yn Nyserth | £12,000 |
| **CYFANSWM A OFYNNWYD AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUN TREF** | **£50,000** |

Mae nifer o eiddo gwag ac adfail ar Stryd Fawr Dyserth, ac mae eu hymddangosiad hyll yn atal buddsoddiad yn yr ardal. Gall gweithgareddau ar gyfer y flaenoriaeth hon gynnwys gwaith i wella edrychiad yr adeiladau, ond gofynnwyd am gyllideb sylweddol i alluogi caffael eiddo hyll posibl lle mae trafodaethau hyd yma gyda pherchnogion i ymgymryd â'r gwaith wedi bod yn aflwyddiannus. Bydd y flaenoriaeth hon yn cynnwys Gwasanaethau Cynllunio a Gwasanaethau Rheoleiddio y Cyngor i sicrhau bod gweithgareddau gorfodi priodol yn cael eu cynnal lle bo angen.

Mae'r offer chwarae yn Nyserth yn hen ac angen eu hamnewid i annog y gymuned i ddefnyddio'r ardal. Bydd trefniadau cynnal a chadw presennol yn parhau.

### 4.4 - Gwariant hyd yma ar Gynlluniau Tref ac Ardal

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r dyraniadau a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Mawrth 2014. Mae'r rhain yn cynnwys y dyraniadau ar gyfer Cynlluniau Ardal y Rhyl, Dinbych a Rhuddlan yn yr adroddiad hwn.

**Tabl 1: Y Gyllideb bresennol yn erbyn Cyllideb y Cynlluniau Tref**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y dyraniad ariannol i Gynlluniau Tref ac Ardal hyd at 31 Mawrth 2014 | **£1,583,000** |
| Dyraniadau hyd yma | **£1,332,170** |
| Balans heb ei ddyrannu hyd at 31 Mawrth, 2014 | **£250,830** |

**Tabl 2: Gwariant hyd yma ac Arian Cyfatebol**

| Tref: | Dyraniadau Cynllun Tref hyd yma | Gwariant hyd yma | Balans Cynllun Tref |
|---|---|---|---|
| **Prestatyn** | £245,000 | £0 | £245,000 |
| **Llanelwy** | £84,800 | £8,420 | £76,380 |
| **Rhuddlan** | £97,000 | £1,726 | £95,274 |
| **Dinbych** | £242,800 | £50,000 | £192,800 |
| **Rhuthun** | £169,070 | £41,420 | £127,650 |
| **Corwen** | £95,000 | £25,426 | £69,574 |
| **Llangollen** | £98,500 | £50,000 | £48,500 |
| **Y Rhyl** | £300,000 | £0 | £300,000 |
| **Bodelwyddan** | £0 | £0 | £0 |
| **CYFANSWM** | **£1,332,170** | **£176,992** | **£1,155,178** |

| Arian Cyfatebol hyd yma | Arian Cyfatebol a Ragwelir | Cyfanswm Arian Cyfatebol |
|---|---|---|
| £0 | £7,000 | £7,000 |
| £0 | £283,500 | £283,500 |
| £700 | £21,300 | £22,000 |
| £0 | £561,200 | £561,200 |
| £41,420 | £187,000 | £228,420 |
| £18,426 | £52,500 | £70,926 |
| £3,000 | £501,000 | £504,000 |
| £0 | £200,000 | £200,000 |
| £0 | £0 | £0 |
| **£63,546** | **£1,813,500** | **£1,877,046** |

Yr un Cynllun sy'n weddill rŵan yw Bodelwyddan sydd wrthi'n cael ei ddatblygu a disgwylir y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn gynnar yn yr haf.

### 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

**Blaenoriaeth – Datblygu'r Economi Lleol -** Bydd y Cynlluniau Tref ac Ardal yn ddogfennau creiddiol o ran y modd y darperir y flaenoriaeth hon ar lefel ardal, a bydd eu

Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig yn manylu ar y mecanweithiau cyflwyno i roi hwb i hyder a buddsoddiad y sector preifat a chreu cyfleoedd ar gyfer swyddi newydd a busnes.

**Blaenoriaeth - Gwella ein Ffyrdd -** bydd y cynlluniau'n helpu i ganfod meysydd lle mae problemau i sicrhau y caiff adnoddau eu cyfeirio at y lleoliadau cywir a bod gwelliannau i ffyrdd yn cael eu gwneud yn y mannau cywir.

**Blaenoriaeth – Strydoedd Glân a Thaclus**
Bydd y cynlluniau'n helpu i nodi meysydd lle mae problemau i sicrhau y cyfeirir adnoddau at y lleoliadau cywir ac y gwneir gwelliannau i'r parth cyhoeddus yn y mannau cywir.

**Blaenoriaeth - Moderneiddio'r Cyngor i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid -** bydd y cynlluniau'n creu mecanwaith allweddol ar gyfer alinio adnoddau gwasanaethau'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd gan gymunedau lleol mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r Cynlluniau Tref ac Ardal yn nodi materion, camau gweithredu a blaenoriaethau a ddatblygwyd drwy ymgynghori â'r cymunedau hynny, a dylai fod yn ddogfen allweddol wrth ddylanwadu ar weithgareddau a blaenoriaethau holl Wasanaethau Sir Ddinbych.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad?

Bydd Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb unigol ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol a nodir yn y Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu cynnal ar yr adeg briodol.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Datblygir Cynlluniau Tref ac Ardal mewn partneriaeth â'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol. Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth CSDd, sefydliadau trydydd sector (drwy CGGSDd), trigolion a'r gymuned fusnes (drwy gynnal rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb a drwy arolygon ar y we).

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r gwariant bwriedig wedi'i gynnwys o fewn y dyraniadau cyllid presennol. Ni ddylai unrhyw brosiect cyfalaf ddechrau heb werthusiad priodol a dylid cynnal goblygiadau refeniw unrhyw brosiectau o fewn y cyllidebau presennol.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risg y bydd datblygu'r cynlluniau'n codi disgwyliadau ac y gallai methiant i gyflawni niweidio enw da'r Cyngor ymysg Cynghorau Tref a Chymuned a budd-ddeiliaid eraill. Bydd hyn yn cael ei reoli drwy gyfranogiad a chyfathrebu parhaus gyda budd-ddeiliaid perthnasol ynglŷn â'r broses o ddatblygu a chyflwyno'r cynlluniau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972